# Cofnodion cryno - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 18 Ionawr 2024

Amser: 10.30 - 13.45

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/13662

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Paul Davies AS (Cadeirydd)<br>Jack Sargeant AS (yn lle Hefin David AS)<br>Luke Fletcher AS<br>Vikki Howells AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Alun Davies AS (yn lle Buffy Williams AS) |
| Tystion: | Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi<br>Lesley Griffiths AS, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd<br>Gian Marco Currado, Llywodraeth Cymru<br>Dr Richard Irvine, Llywodraeth Cymru<br>Dean Medcraft, Llywodraeth Cymru<br>Jo Salway, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Rob Donovan, Clerc |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Lara Date, Ail Glerc<br>Evan Jones, Dirprwy Glerc<br>Ceri Thomas, Swyddog Cymorth y Pwyllgor<br>Sara Moran, Ymchwilydd<br>Lucy Morgan, Ymchwilydd<br>Katy Orford, Ymchwilydd<br>Gareth Thomas, Ymchwilydd |

## 1 Ymchwiliad: Yr Economi Werdd - papur cwmpasu

1.1 Trafododd y Pwyllgor y papur cwmpasu a chytuno arno.

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Hefin David AS a Buffy Williams AS. Roedd Jack Sargeant AS ac Alun Davies AS yn bresennol fel dirprwyon.

2.3 Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

**3.1 Cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach**

**3.2 Ymchwiliad i Lywodraethiant y DU a'r UE**

**3.3 Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidog – 13 Rhagfyr 2023**

**3.4 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024**

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25: Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

4.2 Byddai'r Gweinidog yn darparu eglurder i'r Pwyllgor ar swm yr arian refeniw a ddarperir i Gyswllt Ffermio ar gyfer 2024-25 a fyddai'n dod o'r llinell wariant Cynlluniau Buddsoddi Gwledig yn y gyllideb.

4.2 Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith a wnaed i fesur effaith economaidd ffactorau macro-economaidd ehangach, fel chwyddiant, y rhyfel yn Wcrain, a dewisiadau polisi yn ymwneud â Brexit, ar ffermwyr Cymru.

4.3 Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor i ddarparu eglurder ar ffigurau'r gyllideb o ran toriadau i'r gyllideb ar gyfer pysgodfeydd.

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25: Gweinidog yr Economi

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Weinidog yr Economi.

5.2 Cytunodd Gweinidog yr Economi i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor a anfonwyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ddangos beth y mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio ei wneud o ran gradd-brentisiaethau.

5.3 Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor i amlinellu newidiadau posibl i amcanion a thargedau y gellid eu gosod ar gyfer cymorth busnes o ganlyniad i

ostyngiadau o ran gwariant, ac i ddarparu gwybodaeth am ba gymorth y mae Busnes Cymru yn ei ddarparu ochr yn ochr â Banc Datblygu Cymru yn y maes cymorth busnes.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniwyd y cynnig i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25: Trafod y dystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.